Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | J A Hale | E T Kirchner |
| M B Lewis | S Pritchard | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithrediaeth Gyfreithiol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Vicky Thomas | Sustainable Swansea Programme Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L J Tyler-Lloyd

---

## 5 Datganiadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 6 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 a chofnodion Pwyllgor Trawsnewid a Datblygu Polisi a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 fel cofnod cywir, yn amodol ar y pwynt canlynol y dylid rhoi sylw iddo: -

- Cofnod 46 - Nid oedd y pwyllgor wedi derbyn diweddariad ynghylch amrywiaeth y contractau cyflogaeth yn y Ganolfan Gyswllt.

## 7 Cylch Gorchwyl.

Nodwyd y Cylch Gorchwyl.

## 8 Cynllun Gwaith 2018-2019.

Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Abertawe Gynaliadwy y cynllun gwaith arfaethedig a oedd yn cynnwys y canlynol: -

1) Gweithio er mwyn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o foderneiddio'r polisi oriau gweithio

2) Cais am Gerdyn Dinesydd
3) Caffael y Cynllun Gweithredu PDChP blaenorol - Chwalu rhwystrau i gyflenwyr lleol
4) Strategaeth Cydgynhyrchu/Egwyddorion ar gyfer Dinas a Sir Abertawe
5) Cyfathrebu'r cyngor
6) Datblygu sefydliadol - Gweithlu'r 21ain Ganrif.

Trafodwyd materion y cynllun gwaith. Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw: -

Cynllun Gwaith - Eitem 1
- Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor ymweld â'r timau peilot cytunedig ar gyfer y Polisi Gweithio Hyblyg unwaith y ceir cytundeb, i weld sut mae'n gweithio.
- Gofynnodd y pwyllgor am eglurder ynghylch yr amrediad a'r gwahaniaeth rhwng contractau cyflogaeth, i.e. hyblyg, tymhorol, dim oriau.

Cynllun Gwaith - Eitem 2
- Gofynnodd y Cadeirydd am restr o'r hyn y byddai'n cael ei gynnwys yn yr ap ar gyfer y pwyllgor pan fydd gwaith ar Eitem 2 yn cychwyn.
- Nodwyd nad oes gan bawb ffôn symudol er mwyn defnyddio'r ap.

Cynllun Gwaith - Eitem 3
- Caiff y newidiadau i'r Rheolau Gweithredu Contractau, a ddatblygwyd gan y pwyllgor yn y flwyddyn ddinesig ddiwethaf, eu cwblhau.
- Gellir dechrau rhoi'r camau gweithredu a oedd yn deillio o'r gweithdai ar waith, e.e. marchnata

Cynllun Gwaith - Eitem 4
- Ystyr cydgynhyrchu

Cynllun Gwaith - Eitem 5
- Cyfathrebu â'r cyhoedd, yn enwedig yr oslef a'r iaith a ddefnyddir mewn gohebiaeth.
- Safoni cyfathrebu a brandio corfforaethol, yn enwedig ar lofnodion e-bost.
- Posibilrwydd cyflwyno arolygon mewnol er mwyn creu darlun o'r cyfathrebu gwahanol a geir ar draws y cyngor.

Cynllun Gwaith - Eitem 6
- Byddai trosolwg o'r Strategaeth Sefydliadol yn cael ei roi i'r pwyllgor er mwyn nodi meysydd i'w trafod.

Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen Abertawe Gynaliadwy y byddai'n datblygu Amserlen Busnes o'r cynllun gwaith.

**Penderfynwyd**: -
1) nodi'r cynllun gwaith;
2) egluro'r contractau cyflogaeth amrywiol i'r pwyllgor;
3) Cynnal ymweliadau gan y pwyllgor â'r timau sy'n treialu egwyddorion y Polisi Gweithio Hyblyg. Timau i'w nodi unwaith y bydd y cynlluniau peilot wedi dechrau; a
4) datblygu Amserlen Busnes.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.35 pm

**Cadeirydd**